Ad-daliad dŵr wyneb 2010 - 2011

EBRILL 2010

Dŵr Cymru
Welsh Water

www.dwrcymru.com

PAB0036

Cyflwyniad

Dŵr glaw sy'n syrthio ar eiddo, gan gynnwys blociau o fflatiau, neu ddŵr sy'n draenio i'r garthffos gyhoeddus o weithgareddau megis golchi'ch car yw dŵr wyneb. I'r rhan fwyaf o gwsmeriaid, mae'r glaw sy'n syrthio ar eu to - ac yn aml ar lwybrau a thramwyfeydd - yn draenio i garthffos gyhoeddus. Mae eich taliadau carthffosiaeth yn cynnwys y gost o waredu'r dŵr hwn.

Fodd bynnag, mae rhai mathau o eiddo lle nad yw'r dŵr wyneb yn draenio i'r garthffos gyhoeddus, er enghraifft, gall dŵr wyneb yr eiddo ddraenio i ffos gerrig, nant neu afon. Os credwch fod hyn yn berthnasol i'ch eiddo chi, gallech hawlio gostyngiad yn eich taliadau carthffosiaeth.

Bydd angen i chi gwblhau ffurflen gais a rhoi diagram, yn amlinellu'r trefniadau draenio yn eich eiddo, er mwyn i ni benderfynu a ydych yn gymwys i gael gostyngiad yn eich taliadau carthffosiaeth.

Os ydych yn denant yr Awdurdod Lleol/Cymdeithas Dai ac yn gwneud cais am ad-daliad draenio dŵr wyneb, dylech nodi'r canlynol:

- **Parhewch i dalu eich taliadau i'r Awdurdod Lleol/Cymdeithas Dai tra bod eich cais yn cael ei brosesu**
- **Peidiwch â mynd â'r ffurflen gais hon i'r Awdurdod Lleol/Cymdeithas Dai a gofyn iddynt gwblhau'r diagram. Mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n gwneud cais am yr ad-daliad wneud hyn. Os bydd angen help arnoch i gwblhau'r cais, ffoniwch ni ar 0800 052 0145.**

A ydych yn gymwys am ad-daliad?

Mae angen i chi brofi i ni nad oes dŵr wyneb o unrhyw ran o'ch eiddo yn draenio i'r garthffos gyhoeddus. Er enghraifft, efallai eich bod yn byw ar ystad dai sydd â charthffosydd preifat (heb eu mabwysiadu) a all uno carthffos gyhoeddus â'r gweithfeydd trin neu'r cwrs dŵr. Os bydd unrhyw ddŵr wyneb o'ch eiddo yn draenio i garthffos gyhoeddus, bydd yn rhaid i chi barhau i dalu'r taliadau carthffosiaeth llawn. Mae cwsmeriaid sy'n talu eu taliadau carthffosiaeth i Dŵr Cymru a'u taliadau dŵr i gwmni arall hefyd yn gymwys i wneud cais. O ran cwsmeriaid sy'n byw mewn eiddo y codir tâl amdanynt o dan gytundeb bilio cyffredin, mae'n rhaid sicrhau nad oes dim dŵr wyneb yn gollwng o unrhyw eiddo a gaiff ei filio o dan y cytundeb er mwyn i'r ad-daliad fod yn gymwys. Mewn achos o'r fath, mae un ad-daliad yn cwmpasu pob eiddo a gaiff ei filio o dan y cytundeb bilio cyffredin.

Noder **NAD YW'R** cwsmeriaid hynny a gaiff eu bilio ar ein tariff Cymorth Dŵr Cymru yn gymwys i gael ad-daliad dŵr wyneb.

Beth os nad yw fy eiddo wedi'i gysylltu â'r garthffos gyhoeddus?

Os nad yw eich eiddo wedi'i gysylltu â'r garthffos gyhoeddus a bod eich dŵr gwastraff yn draenio i garthbwll, tanc carthion neu system ddraenio breifat a bod dŵr wyneb yn draenio i ffos gerrig neu rywbeth tebyg, ni ddylid codi tâl arnoch am wasanaethau carthffosiaeth. Os codir tâl arnoch, ffoniwch ni ar **0800 052 0145**.

Sut ydych yn gwneud cais?

1. Bydd angen i chi wneud diagram syml o ble mae dŵr wyneb o'ch eiddo yn llifo. Dylai'r diagram gynnwys:
   - ffyrdd, llwybrau troed ac eiddo cyfagos
   - ffin eich eiddo
   - eich trefniadau ar gyfer draenio dŵr wyneb, gan gynnwys i ble mae'r pibellau dŵr yn mynd. Rhoddir enghraifft drosodd.
2. Cwblhewch y ffurflen hawlio drosodd a'i hanfon i'r cyfeiriad a nodir gyda'r diagram wedi'i gwblhau.
3. Parhewch i dalu eich bil fel arfer tra bod eich hawliad yn cael ei brosesu.

Faint fydd y gostyngiad?

Gall cwsmeriaid a all ddangos nad oes unrhyw ddŵr o'u dŵr ffo wyneb yn draenio i'r garthffos gyhoeddus, hawlio eithriad rhag talu elfen dŵr wyneb y taliad carthffosiaeth. Yn gyffredinol, bydd unrhyw eithriad yn gymwys o 1af Ebrill yn y flwyddyn y gwneir yr hawliad. Bydd cwsmeriaid preswyl sy'n talu taliadau anfesuredig yn cael gostyngiad o **£43.00** ar eu bil carthffosiaeth. Bydd cwsmeriaid preswyl â mesurydd yn talu'r gyfradd gyfeintiol ostyngol o **£1.1996** fesul metr ciwbig (**£1.5210** yw'r gyfradd gan gynnwys dŵr wyneb). Bydd cwsmeriaid dibreswyl â mesurydd sydd wedi dewis y tariff diwydiannol yn talu'r gyfradd gyfeintiol ostyngol o **£1.1339** fesul metr ciwbig (**£1.4377** yw'r gyfradd gan gynnwys dŵr wyneb).

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl cael eich hawliad, byddwn yn ei ystyried cyn gynted â phosibl ac yn eich hysbysu o'n penderfyniad. Ni ddylai hyn gymryd mwy na thri mis. Os bydd unrhyw anghytundeb ynghylch eich hawl, gallwch ofyn i'r penderfyniad gael ei adolygu gan uwch reolwr a fydd yn ymchwilio i'r mater ar eich rhan.

Os byddwn yn derbyn eich hawliad, bydd yr ad-daliad yn gymwys i'ch taliadau ar gyfer yr eiddo yn y flwyddyn bresennol a blynyddoedd dilynol. Fodd bynnag, os byddwch yn newid y trefniadau draenio yn eich eiddo yn y dyfodol, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym er mwyn i ni allu adolygu eich hawl i'r gostyngiad. Byddwn hefyd yn adolygu'r hawl i gael ad-daliad pan fydd deiliad newydd yn yr eiddo.

Noder bod hawliadau yn amodol ar Dŵr Cymru neu ei asiant penodedig yn eu dilysu.

Os bydd y trefniadau draenio yn eich eiddo yn newid, a'ch bod yn methu â'n hysbysu ohonynt, ar ôl canfod y newidiadau, efallai y gwnawn ôl-ddyddio'r taliadau priodol am hyd at chwe blynedd.

✓ Ad-daliad



✗ Dim Ad-daliad



Draen/Carthffos Fudr | Draeniad Dŵr Wyneb/Carthffos Breifat | Draen/Carthffos Gyfunol | Ffos Gerrig

Gwnewch eich diagram isod

(neu atodwch eich cynlluniau trefniant draenio)

Hawliad ar gyfer gostyngiad mewn taliadau carthffosiaeth lle nad oes unrhyw ddŵr wyneb yn draenio i'r garthffos gyhoeddus.

Rhif Cyfeirnod y Cwsmer: _____
(mae'r rhif hwn i'w weld ar eich bil. Os ydych yn denant yr Awdurdod Lleol/Cymdeithas Dai, gadewch hwn yn wag)

Enw'r cwsmer: _____

Cyfeiriad yr eiddo yr ydych yn gwneud cais mewn perthynas ag ef: _____

_____ Cod Post _____

Y cyfeiriad y dylem ysgrifennu atoch: (os yw'n wahanol i'r uchod) _____

_____

_____

1. Ardystiaf y canlynol:
   A: Ni chredaf fod unrhyw ddŵr wyneb o'r eiddo uchod yn draenio i'r garthffos gyhoeddus
   B: Caiff dŵr wyneb ei waredu drwy'r ffordd a nodir ar y cynllun

   Cafodd y diagram atodedig ei baratoi yn unol â chyfarwyddiadau Dŵr Cymru.
2. Cytunaf i ganiatáu i gynrychiolydd awdurdodedig o Dŵr Cymru fynd i mewn i'r eiddo uchod ar unrhyw amser rhesymol i ddilysu'r trefniadau draenio
3. Ymgymeraf i hysbysu Dŵr Cymru ar unwaith o unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a roddais.

Llofnod: _____ Dyddiad: _____
(yr unigolyn sy'n gyfrifol am dalu'r taliadau carthffosiaeth ar gyfer yr eiddo uchod)

Rhif ffôn cyswllt: _____

Anfonwch y ffurflen gais hon gyda'ch cynllun i:

Dŵr Cymru
Blwch Swyddfa'r Post 690
Caerdydd
CF3 5WL

Os byddwch yn cael unrhyw anawsterau wrth gwblhau'r ffurflen hon, ffoniwch ni ar **0800 052 0145** a bydd un o'n cynghorwyr yn gallu eich helpu.

Mae'n rhaid i chi gwblhau a dychwelyd y ffurflen hon a'r diagram sy'n amlinellu'r trefniadau draenio yn eich eiddo, er mwyn i ni benderfynu a oes gennych hawl i gael gostyngiad yn eich taliadau carthffosiaeth.